# Arwain gweithle iach a diogel

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi’r gofynion wrth arwain gweithle iach a diogel. Mae hyn yn cynnwys modelu, monitro a gwelliant parhaus polisïau, gweithdrefnau ac arferion ym maes iechyd a diogelwch.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi a chytuno ar rolau a chyfrifoldebau eich hun, unigolion ac eraill i gynnal gweithle iach a diogel
2. sicrhau mynediad at weithdrefnau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg
3. rhoi arweiniad a chefnogi eraill i gynnal eu hylendid personol, eu hiechyd a'u hymddangosiad i gefnogi gweithle iach a diogel
4. hybu diwylliant lle mae ymwybyddiaeth o iechyd meddwl a llesiant meddyliol yn ogystal â monitro a gweithredu pryderon yn y gweithle
5. grymuso eraill i nodi a rhoi gwybod am bryderon yn y gweithle
6. rhoi polisïau ac arferion ar waith sy'n lleihau ymddygiad treisgar, bygythiol neu camdriniol
7. arwain arferion gorau o ran diogelwch yn y gweithle ac annog unigolion ac eraill i wneud hynny
8. ymateb i sefyllfaoedd sy'n cyflwyno perygl neu argyfwng iechyd a diogelwch, a rheoli neu gefnogi â'r sefyllfa
9. sicrhau y gwrandewir ar unigolion neu eraill sy'n ymwneud â pheryglon neu argyfyngau, a'u bod yn cael cefnogaeth
10. rheoli ymarfer pobl eraill i sicrhau bod arferion iach a diogel yn cael eu dilyn yn y gweithle
11. cefnogi cyfleoedd i wella er mwyn atal neu leihau peryglon neu argyfyngau
12. arwain y gwaith o ddarparu cyfleoedd i unigolion gymryd risgiau cadarnhaol, a chefnogi eraill i ddefnyddio gweithdrefnau rheoli risg
13. datblygu a chynnal cynlluniau ymateb i argyfwng
14. cefnogi a grymuso eraill i baratoi ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng drwy ddarparu mynediad at gynlluniau ymateb i argyfwng ac asesiadau risg unigol
15. sicrhau bod eraill yn cael mynediad at adnoddau dysgu a datblygu iechyd a diogelwch yn y gweithle
16. rhoi cyfleoedd i unigolion ac eraill gynllunio, monitro a rhoi adborth ar iechyd a diogelwch y gweithle
17. gweithio ar y cyd ag eraill i sicrhau bod unrhyw newidiadau a bennir yn cael eu hadolygu a'u gweithredu lle bo angen
18. ymchwilio i ddamweiniau yn y gweithle a damweiniau fu bron â digwydd i atal hyn rhag digwydd eto
19. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain gweithle

iach a diogel, a chefnogi eraill i wneud hynny

20. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i arwain gweithle iach a diogel

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut mae arwain ymarfer o ran hylendid personol, iechyd ac ymddangosiad, a'i rôl mewn gweithle iach a diogel
2. sut mae arwain mewn perthynas ag arferion atal a rheoli heintiau, a'r defnydd o gyfarpar diogelu personol
3. sut mae cynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith, a phwysigrwydd modelu'r arfer hwn
4. achosion cyffredin straen yn y gweithle, a sut i'w rheoli'n effeithiol
5. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth hybu gweithle iach a diogel
6. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i arwain gweithle iach a diogel
7. sut mae darparu mynediad a chefnogi eraill i ddilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch ac asesiadau risg
8. y gweithdrefnau rheoli risg a ddefnyddir i gefnogi unigolion i gymryd risgiau cadarnhaol
9. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar asesiadau risg iechyd a diogelwch
10. gwahanol fathau o beryglon iechyd a diogelwch a all godi yn eich gweithle, a sut i fynd i'r afael â nhw
11. gwahanol fathau o argyfyngau a all godi yn eich gweithle, a sut i fynd i'r afael â nhw
12. sut mae rôl, cyfrifoldebau a lleoliad yn dylanwadu ar y ffordd yr ymdrinnir â pheryglon ac argyfyngau
13. sut mae modelu a chefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod cyfnodau o bwysau yn y gweithle
14. y mathau o gymorth sydd ar gael i unigolion ac eraill sy'n ymwneud â sefyllfaoedd brys a pheryglus
15. sut mae arwain o ran defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma mewn gweithle iach a diogel
16. eich cyfrifoldeb arwain i gadw chi eich hun, unigolion ac eraill yn ddiogel yn y gweithle
17. dylanwad diwylliant a chefndir ar ganfyddiadau o beryglon iechyd a diogelwch
18. y mathau o weithdrefnau diogelwch sydd eu hangen i sicrhau gweithle iach a diogel

19. y mathau o bryderon diogelwch a sut i ymdrin â nhw
20. ystyriaethau allweddol a gweithdrefnau'r gweithle i gefnogi'r rhai sy'n gweithio ar eu pennau eu hunain
21. strategaethau i atal ymddygiad treisgar, bygythiol neu chamdriniol yn y gweithle
22. sut mae ymchwilio i ddamweiniau yn y gweithle a damweiniau fu bron â digwydd i atal hyn rhag digwydd eto
23. sut mae datblygu a chynnal cynlluniau ymateb i argyfwng, a pham eu bod yn bwysig
24. sut mae monitro a grymuso eraill i ymgymryd â driliau argyfwng
25. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain gweithle iach a diogel
26. theorïau sy'n berthnasol i arwain gweithle iach a diogel
27. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain gweithle iach a diogel
28. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain gweithle iach a diogel
29. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu arwain gweithle iach a diogel
30. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain gweithle iach a diogel, a sut i fynd i'r afael â hyn
31. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain gweithle iach a diogel

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

Arwain gweithle iach a diogel

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD42 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gweithle Iach a Diogel, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |